


COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU



Comisiwn Ffiniau a
Democratiaeth Leol
Cymru

Local Democracy and
Boundary Commission
For Wales

**DADANSODDIAD O'R ESTYNIAD I'R
ETHOLFRAINT AR Y RHAGLEN AROLYGON
ETHOLIADOL 2017**

RHAGFYR 2018

© Hawlfraint CFfDLC 2018

Gallwch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence> neu anfonwch e-bost: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn at y Comisiwn yn ymholiadau@ffiniau.cymru

COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU

DADANSODDIAD O'R ESTYNIAD I'R ETHOLFRAINT AR Y RHAGLEN AROLYGON ETHOLIADOL 2017

Pennod	Teitl	Paragraff	Tud.
1.	Cyflwyniad Cwmpas	1.1	1
		1.2	1
2.	Dadansoddeg Trosolwg Data Cyffredinol Cynghorau Data Wardiau Etholiadol	2.1	3
		2.2	3
		2.6	5
			3
3.	Dadansoddi – Effaith ar arolygon Asesiad o'r Effaith Gyffredinol – Rhaglen Arolygon Gyfredol Asesiad o'r Effaith Gychwynnol – Rhaglen Arolygon 2023	3.1	8
		3.11	10
		3.13	10
			10

ATODIAD 1
ATODIAD 2

Rhestr Termau
Llythyr Cylch Gwaith Diwygiedig

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg.
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

Tŷ Hastings

Llys Fitzalan

CAERDYDD

CF24 0BL

Rhif Ffôn: (029) 2046 4819

Rhif Ffacs: (029) 2046 4823

E-bost: [ymholiadau@ffiniau.cymru](mailto:yhmoliadau@ffiniau.cymru)

www.cffdl.llyw.cymru



**INVESTORS
IN PEOPLE**

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Gofynnwyd i'r Comisiwn gan gyn Ysgrifennydd y Cabinet yn ei Lythyr Cylch Gwaith diwygiedig 2018/19 ddarparu dadansoddiad o effeithiau ymestyn yr etholfraint ac ystyried effaith bosibl estyniad o'r fath ar arolygon etholiadol y Comisiwn.

Cwmpas

- 1.2 Y cynigion i'w rhoi gerbron y Senedd yw ymestyn yr etholfraint llywodraeth leol i gynnwys gwladolion tramor nad ydynt yn gymwys ar hyn o bryd i bleidleisio, ac i ostwng yr oedran pleidleisio i 16.
- 1.3 Mae Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 yn amlinellu'r fframwaith deddfwriaethol y mae'n rhaid i'r Comisiwn weithredu oddi tano wrth gynnal arolwg etholiadol. Arolwg etholiadol yw'r arolwg o drefniadau etholiadol prif gyngor, sef: nifer yr aelodau ar gyfer cyngor; nifer a ffiniau'r ward etholiadol y mae aelod yn eu cynrychioli; nifer yr aelodau ar gyfer pob ward etholiadol; ac, enw pob ward etholiadol.
- 1.4 Wrth ystyried creu wardiau etholiadol, mae Adran 30 (1) (a) yn pennu bod rhaid i'r Comisiwn geisio sicrhau bod y gymhareb etholwyr llywodraeth leol i nifer aelodau'r cyngor i'w hethol yr un fath, neu mor agos ag y bo modd, ym mhob ward etholiadol yn y brif ardal. Mae Adran 30 (4) yn diffinio etholwr llywodraeth leol fel "*...person sydd wedi ei gofrestru'n etholwr llywodraeth leol yn y gofrestr etholwyr yn unol â darpariaethau Deddfau Cynrychiolaeth y Bobl.*" At ddiben y gwaith hwn, mae'r Comisiwn yn tybio bod Adran 30 (4) naill ai i'w diwygio neu fod y Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl berthnasol i'w diwygio.
- 1.5 Yn y dadansoddiad hwn, mae'r Comisiwn wedi defnyddio'r unig set ddata sydd ar gael iddo sy'n cwmpasu Cymru gyfan, ac mae wedi'i rhannu yn ôl oedran a ward etholiadol bresennol. Amcangyfrifon canol blwyddyn arbrofol yw'r rhain a ddarparwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS). Yn y dadansoddiad hwn, mae wedi edrych ar yr ystadegau cyhoeddedig diweddaraf a oedd ar gael iddo adeg ysgrifennu hwn – sef amcangyfrifon canol blwyddyn 2016.
- 1.6 Yn ddelfrydol, byddai'r dadansoddiad hwn yn defnyddio gwybodaeth o bob cyngor gyda nifer arfaethedig y rhai 16 ac 17 oed yn eu hardal, wedi'u rhannu yn ôl cymuned a ward gymunedol. Yr ardaloedd cymunedol hyw yw'r sylfeini y mae'r Comisiwn yn eu defnyddio i greu wardiau etholiadol. Fodd bynnag, pan ysgrifennwyd hwn, dim ond dau gyngor sydd wedi dechrau cynnal peilot o waith o fewn eu hardaloedd cyngor i ddechrau cofrestru'r rhai 16 ac 17 oed, a gweithio gydag ysgolion a rhai eraill sy'n gysylltiedig ag addysg y rhai 10 i 17 oed o ran eu gallu i ddod yn gyrhaeddwr a phleidleisio yn 16 oed.
- 1.7 Pan fydd yr holl awdurdodau lleol wedi diweddarau'u cofrestri, gellir cynnal dadansoddiad llawn yn seiliedig ar ddata cywir a byw.
- 1.8 Yn y dadansoddiad hwn, mae'r Comisiwn wedi edrych ar effaith ychwanegu'r rheiny yn nata'r cyfrifiad sy'n 16 a 17 oed. Cynhaliwyd dadansoddiad byr i edrych ar y rheiny a fyddai'n 16 oed yn 2022, ond ni fwiodd y Comisiwn yn ei flaen ar y sail honno. Nid yw'r Comisiwn yn hyderus y gall ddefnyddio'r amcangyfrifon canol

DADANSODDIAD O'R ESTYNIAD I'R ETHOLFRAINT

blwyddyn arbrofol ar gyfer y rheiny yr amcangyfrifwyd eu bod yn 10 yn 2016 (y rhai a oedd yn 5 oed pan gynhaliwyd y cyfrifiad) a rhagamcanu'r rheiny yn eu wardiau ymhen 4 blynedd ar sail amcanestyniad o 2011. Mae'r Comisiwn yn cynnal ei arolygon ar sail nifer presennol yr etholwyr cofrestredig, heb gynnwys cyrhaeddwyr. Felly, er mwyn cynnal dadansoddiad mor agos â phosibl at ddadansoddiad tebyg am debyg mae'r Comisiwn wedi cymhwyso'r un egwyddor i'r dadansoddiad hwn.

- 1.9 Nid oes data penodol ar gaer ar nifer y gwladolion tramor nad ydynt yn gymwys i bleidleisio ar hyn o bryd, wedi'u dadansoddi yn ôl ward ar gyfer Cymru. Fodd bynnag, mae'r holl wladolion tramor wedi'u cynnwys yn y cyfrifiad ac, o ganlyniad, yr amcangyfrifon canol blwyddyn a gyhoeddwyd gan yr ONS y mae'r Comisiwn yn eu defnyddio. Trwy ddefnyddio'r data hwn, mae'r Comisiwn wedi cynnwys gwladolion tramor nad ydynt yn gymwys i bleidleisio ar hyn o bryd yn ei ddadansoddiad, ond ni all gyfeirio atynt yn benodol fel set ddata. Bydd y dadansoddiad, felly, hefyd yn cynnwys gwladolion tramor 16 ac 17 oed nad ydynt yn gymwys i bleidleisio ar hyn o bryd.

2. DADANSODDEG

Trosolwg

2.1 Fel y disgrifiwyd yn 1.5, mae'r Comisiwn wedi defnyddio amcangyfrifon canol blwyddyn arbrofol 2016 gan yr ONS i gynnal y dadansoddiad. Mae nifer y boblogaeth, y boblogaeth sy'n gymwys i bleidleisio (18+) a'r rhai 16 ac 17 oed wedi'u rhannu yn ddwy ran: Yn ôl prif gyngor; ac, yn ôl ward etholiadol. Y rhaniad diwethaf yw'r un mwyaf pwysig o ran dadansoddi oherwydd y modd y mae'r Comisiwn yn cynnal ei arolygon etholiadol.

Data Cyffredinol Cynghorau

2.2 Mae'r tabl isod yn dangos cyfanswm y boblogaeth: dros 18; dros 16; 16 ac 17 yn unig; canran y boblogaeth a'r boblogaeth sy'n gymwys i bleidleisio (PETV); a gwyriad safonol ei wardiau, wedi'u dadansoddi yn ôl prif gyngor.

Sir	Cyfanswm	18+	16+	16-17	16-17		Gwyriad Safonol
					% Pob.	% PETV	
Blaenau Gwent	69,628	55,915	57,583	1,668	2.40%	2.90%	0.32
Pen-y-bont ar Ogwr	143,177	114,114	117,412	3,298	2.30%	2.81%	0.50
Caerffili	180,462	142,097	146,301	4,204	2.33%	2.87%	0.37
Caerdydd	361,468	287,473	294,905	7,432	2.06%	2.52%	0.71
Sir Gaerfyrddin	185,610	148,522	152,764	4,242	2.29%	2.78%	0.48
Ceredigion	74,146	61,720	63,208	1,488	2.01%	2.35%	0.73
Conwy	116,538	95,074	97,703	2,629	2.26%	2.69%	0.57
Sir Ddinbych	94,805	75,389	77,589	2,200	2.32%	2.84%	0.66
Sir y Fflint	154,419	122,395	126,005	3,610	2.34%	2.86%	0.48
Gwynedd	123,627	100,135	102,727	2,592	2.10%	2.52%	0.77
Ynys Môn	69,723	56,243	57,728	1,485	2.13%	2.57%	0.36
Merthyr Tudful	59,810	47,124	48,556	1,432	2.39%	2.95%	0.40
Sir Fynwy	92,843	75,185	77,439	2,254	2.43%	2.91%	0.78
Castell-nedd Port Talbot	141,588	113,631	116,839	3,208	2.27%	2.75%	0.48
Casnewydd	149,148	115,368	119,027	3,659	2.45%	3.07%	0.48
Sir Benfro	123,954	99,744	102,645	2,901	2.34%	2.83%	0.53
Powys	132,160	107,664	110,896	3,232	2.45%	2.91%	0.94
Rhondda Cynon Taf	238,306	188,406	193,852	5,446	2.29%	2.81%	0.44
Abertawe	244,513	197,178	202,551	5,373	2.20%	2.65%	0.50
Torfaen	92,052	72,995	75,146	2,151	2.34%	2.86%	0.56
Bro Morgannwg	128,463	101,513	104,744	3,231	2.52%	3.08%	0.66
Wrecsam	136,710	107,359	110,451	3,092	2.26%	2.80%	0.49
Cyfanswm	3,113,150	2,485,244	2,556,071	70,827	2.28%	2.77%	0.56

Noder: y data a ddefnyddiwyd yw amcangyfrifon canol blwyddyn 2016 arbrofol yr ONS.

DADANSODDIAD O'R ESTYNIAD I'R ETHOLFRAINT

- 2.3 Mae yna 70,827 o bobl ifanc 16 ac 17 oed ledled Cymru. Mae hyn yn 2.28% o'r boblogaeth ac yn 2.77% o'r boblogaeth sy'n gymwys i bleidleisio (16+). Er bod y niferoedd mwyaf yn yr ardaloedd cyngor mwy poblog, mae'r cyfrannau uchaf o etholwyr yng Nghasnewydd (3.07%) a Bro Morgannwg (3.08%). Mae'r gyfran isaf o etholwyr posibl yng Ngheredigion (2.35%), Caerdydd (2.52%) a Gwynedd (2.52%).
- 2.4 O ran gwriad, ceir gwriad cymharol fach ym mhob ward, gyda chyfartaledd gwriad o 0.56 o'u cyfartaledd sirol priodol. Mae'r gwriadau isaf ym Mlaenau Gwent (0.32), Caerffili (0.37) ac Ynys Môn (0.36). Y rheiny â'r gwriad mwyaf yn eu wardiau yw Gwynedd (0.77), Sir Fynwy (0.78) a Phowys (0.94).
- 2.5 Mae'r gwriad safonol yn llai nag 1 ar gyfer Cymru gyfan. Mae effaith gyffredinol ychwanegu'r rhai 16 ac 17 oed o'i hystyried ar sail sir gyfan yn fach iawn ac yn gyson ledled y wlad. Fodd bynnag, nid fel hyn y bydd y Comisiwn yn ystyried yr ystadegau hyn wrth gynnal arolwg. Roedd angen dadansoddiad ward wrth ward felly.

COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU
Data Wardiau Etholiadol

2.6 Mae'r tabl isod yn dangos canran gyfartalog y rhai 16 ac 17 oed o gyfanswm y boblogaeth dros 16 oes sy'n gymwys i bleidleisio; y wardiau lleiaf a mwyaf ym mhob awdurdod fel canran o'r boblogaeth sy'n gymwys i bleidleisio (PETV); ac, enw'r ward, yn ôl y prif gyngor.

Sir	%PETV	+	-	+	-
Blaenau Gwent	2.90%	3.45%	2.56%	Rasa	Abertyleri
Pen-y-bont ar Ogwr	2.81%	3.95%	1.48%	Llangeinwyr	Llangrallo Isaf
Caerffili	2.87%	3.71%	1.90%	Cwm Darran	Gorllewin Rhisga
Caerdydd	2.52%	4.07%	0.60%	Adamsdown	Cathays
Sir Gaerfyrddin	2.78%	3.96%	1.65%	Felinfoel	Llanddarog
Ceredigion	2.35%	4.31%	0.75%	Llanbadarn Fawr-Padarn	Aberystwyth Canol/Central
Conwy	2.69%	4.10%	1.63%	Llansannan	Craig-y-Don
Sir Ddinbych	2.84%	4.63%	1.76%	De Orllewin y Rhyl	Tremeirchion
Sir y Fflint	2.86%	3.91%	1.89%	De'r Wyddgrug	Penarlâg
Gwynedd	2.52%	4.48%	0.52%	Groeslon	Garth
Ynys Môn	2.57%	2.99%	1.71%	Canolbarth Môn	Bro Aberffraw
Merthyr Tudful	2.95%	3.55%	2.52%	Penydarren	Faenor
Sir Fynwy	2.91%	5.90%	1.53%	Dixton gydag Osbaston	Y Maerdy
Castell-nedd Port Talbot	2.75%	3.60%	1.59%	Llangatwg	Dwyrain Llansawel
Casnewydd	3.07%	4.13%	2.08%	Pillgwenlli	Caerllion
Sir Benfro	2.83%	4.08%	1.45%	Penfro: Monkton	Dinbych-y-pysgod: De
Powys	2.91%	8.94%	1.66%	Dewi Sant Mewnol	Llanwrtyd
Rhondda Cynon Taf	2.81%	4.29%	1.78%	Canol Rhydfelen/Ilan	Trallwng
Abertawe	2.65%	4.02%	1.46%	Penderi	Y Castell
Torfaen	2.86%	4.12%	1.86%	Greenmeadow	Gogledd Croesyceiliog
Bro Morgannwg	3.08%	4.83%	2.16%	Stanwell	Sant Awstin
Wrecsam	2.80%	3.94%	1.84%	Little Acton	Erddig

Noder: y data a ddefnyddiwyd yw amcangyfrifon canol blwyddyn 2016 arbrofol yr ONS.

2.7 Fel y disgrifiwyd yn 2.5 nid yw'r gwriad cyfartalog yn sylweddol ar draws ardaloedd cyngor. Ceir eithafoedd fodd bynnag; Garth yng Ngwynedd (-2.00%), Dixton gydag Osbaston yn Sir Fynwy (2.99%) a Dewi Sant Mewnol ym Mhowys (6.03%). Ac eithrio'r tair ward hyn, mae'r lefel amrywiant o gyfartaledd y sir yn llai na 2% ledled Cymru.

2.8 Mae'r Comisiwn yn ystyried pob ward o fewn yr awdurdod lleol ar sail ei hamrywiant o'r cyfartaledd sirol arfaethedig, fel y diffiniwyd gan Bolisi'r Comisiwn ar faint Cynghorau. Mae'r ddyletswydd statudol yn y Ddeddf yn pennu bod rhaid i ni gyflawni lefel cydraddoldeb o fewn pob awdurdod. Er mwyn gwneud hyn, mae polisi gan y Comisiwn lle ceir rheol brasamcan ar gyfer y lefel amrywiant briodol y mae'n ystyried yn briodol ar gyfer y rhaglen hon o arolygon. Mae'r Comisiwn o'r farn fod lefel amrywiant sydd dros +/-25% o'r cyfartaledd sirol arfaethedig yn amhriodol, er mai gwella cydraddoldeb etholiadol mor agos â phosibl at 0% a ffeffir bob amser.

2.9 Yn ogystal, er mwyn cynorthwyo cyngor a sicrhau nad oes unrhyw beth

DADANSODDIAD O'R ESTYNIAD I'R ETHOLFRAINT

annisgwyl yng nghynigion ac argymhellion y Comisiwn, ar ddechrau pob arolwg mae'r Comisiwn yn rhoi codau lliw i bob ward bresennol ar sail ei hamrywiant o'r cyfartaledd sirol arfaethedig. Mae wardiau o fewn +/-10% o'r cyfartaledd sirol arfaethedig yn wyrdd; rhwng +/-10% a +/-25% yn felyn; rhwng +/-25% a +/-50% yn oren; a'r rheiny dros +/-50% yn goch.

- 2.10 Oherwydd y ffordd y mae'r Comisiwn yn ystyried pob ward wrth gynnal arolwg, nid yw'r wardiau sy'n eithafion o fewn eu hardal cyngor yn diffinio p'un a fyddai'n effeithio ar y modd y mae'r Comisiwn yn ystyried pob ward o fewn arolwg etholiadol. Rhaid ystyried y wardiau mewn ffordd arall felly.
- 2.11 Yn y tabl isod ceir cyfanswm nifer y wardiau ar gyfer pob cyngor; p'un a yw ward, wrth ychwanegu'r rhai 16 ac 17 oed, wedi newid categori; ac, os oedd hwnnw'n newid sylweddol, h.y. roedd wedi symud o felyn i oren neu fel arall. Os oes newid sylweddol, nodir enw'r ward a nodir lefel y newid.

Sir	Wardiau	Wedi newid	Sylweddol	Enw'r Ward
Blaenau Gwent	16	0	0	
Pen-y-bont ar Ogwr	39	0	0	
Caerffili	33	0	0	
Caerdydd	29	1	0	
Sir Gaerfyrddin	58	0	0	
Ceredigion	40	1	0	
Conwy	38	0	0	
Sir Ddinbych	30	1	1	Llanarmon-yn-Iâl/ Llandegla
Sir y Fflint	57	2	1	Mostyn
Gwynedd	71	2	0	
Ynys Môn	11	0	0	
Merthyr Tudful	11	0	0	
Sir Fynwy	42	1	1	Dixton gydag Osbaston
Castell-nedd Port Talbot	42	0	0	
Casnewydd	20	2	1	Pillgwenlli
Sir Benfro	60	1	1	Scleddau
Powys	73	2	0	
Rhondda Cynon Taf	52	2	1	Y Ddraenen Wen
Abertawe	36	0	0	
Torfaen	24	1	1	Trefddyn
Bro Morgannwg	23	0	0	
Wrecsam	47	1	0	
Cyfanswm	852	17	7	

2.12 Fel y gellir gweld yn y tabl uchod, o'r 852 o wardiau yng Nghymru, dim ond 17 o'r rhain (2.00%) sy'n newid categori. O'r rhain, dim ond 7 (0.82%) sy'n newid yn sylweddol.

3. DADANSODDIAD – EFFAITH AR AROLYGON

- 3.1 Yn y bennod hon, mae'r Comisiwn wedi dadansoddi'r saith ward a'r effaith ar yr arolygon hynny sy'n mynd rhagddynt neu'r arolygon sydd wedi'u cwblhau. Yn dilyn hynny, ceir asesiad o'r effaith gyffredinol ac, yn olaf, cynigiodd y Comisiwn gamau nesaf ar gyfer y rhaglen arolygon hon a'r un sy'n dechrau yn 2023.
- 3.2 Y saith ward yr effeithir arnynt yw: Dixton gydag Osbaston, Y Ddraenen Wen, Llanarmon-yn-Iâl/Llandegla, Mostyn, Pillgwenlli, Scleddau a Threfddyn.

Dixton gydag Osbaston (Sir Fynwy)

- 3.3 Y ward hon sy'n gweld y cynnydd cyffredinol mwyaf o 24.9% o'r cyfartaledd sirol i 28.9%. Ar 24.9%, byddai'r ward hon yn ymylol o ran ystyried ei hyfywedd parhaus. Byddai'r penderfyniad yn cael ei lywio gan y ffigurau rhagamcanol a'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd ar gyfer yr ardal. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi cwblhau arolwg cymunedol yn ddiweddar, ac os yw'r newidiadau i'r ward hon yn cael eu gwneud byddai newidiadau sylweddol iawn i'r ward hon (mae'r ardaloedd Dixton ac Osbaston mewn wardiau ar wahân ar hyn o bryd). Mae'n amhosibl felly i'r Comisiwn ystyried y ward hon ar ei ffurf bresennol gan y byddai'n amhriodol i wneud hynny.

Y Ddraenen Wen (Rhondda Cynon Taf)

- 3.4 Yn debyg i Dixton gydag Osbaston, mae'r ward hon hefyd yn symud o 24.9%, gan 0.3%, i 25.2%. Byddai'r ward hon yn un ymylol o ran ystyried ei hyfywedd parhaus. Fodd bynnag, mae'r ward hon yn debygol iawn o newid yn yr arolwg etholiadol cyfredol o RhCT. Y prif reswm yw, o fewn y gofrestr etholwyr bresennol, mae'r ward yn 35.3% o'r cyfartaledd sirol arfaethedig. Mae hon ar ei phen ei hun yn lefel amhriodol o ran amrywiant. Os yw'r duedd yn y boblogaeth yn cyfateb yn nifer yr etholwyr cofrestredig, sef cynnydd o 0.3%, byddai hyn yn cynyddu'r lefel amrywiant amhriodol ymhellach.

Llanarmon-yn-Iâl/Llandegla (Sir Ddinbych)

- 3.5 Mae'r ward hon yn newid o 25.2% i 24.8% o'r cyfartaledd sirol arfaethedig. Gallai'r Comisiwn ystyried bod gan y ward hon, ar ei phen ei hun, lefel amrywiant briodol, er yn ymylol. Fodd bynnag, mae'r ward wedi'i lleoli nesaf at Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal. Pan edrychwn ar yr etholwyr ar gyfer y wardiau hyn yn yr arolwg cyfredol, mae ward Llanarmon-yn-Iâl/Llandegla 28% uwchlaw'r cyfartaledd sirol arfaethedig, ac mae Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal 25% islaw'r cyfartaledd sirol arfaethedig. Os yw nifer cofrestredig yr etholwyr yn cyfateb i'r duedd yn y boblogaeth, sef gostyngiad o 0.4%, byddai lefel amrywiant amhriodol o hyd. Yn ogystal, drwy symud un gymuned rhwng y ddwy ward, fel y mae'r Comisiwn wedi cynnig yn ei Gynigion Drafft, mae gan y ddwy ward newydd lefelau amrywiant gryn dipyn yn well ar 18% a -11% o'r cyfartaledd sirol arfaethedig.

Mostyn (Sir y Fflint)

3.6 Mae'r ward hon yn newid o 25.1% i 24.8% o'r cyfartaledd sirol arfaethedig. Gallai'r Comisiwn ystyried bod gan y ward hon, ar ei phen ei hun, lefel amrywiant briodol, er yn ymylol, pe bai'r arolwg yn cael ei gynnal gan ddefnyddio'r data hwn. Pan edrychwn ar nifer yr etholwyr ar gyfer y ward hon yn yr arolwg cyfredol, mae 23% islaw'r cyfartaledd sirol arfaethedig. Gallai'r Comisiwn ystyried bod gan y ward hon, ar ei phen ei hun, lefel amrywiant briodol, er yn ymylol. Ceir lefel amrywiant briodol yn y wardiau amgylchynol hefyd.

Pillgwenlli (Casnewydd)

3.7 Mae'r ward hon yn symud hefyd o 24.9%, gan 1.3%, i 26.2%. Byddai'r ward hon yn ymylol o ran ystyried ei hyfywedd parhaus, pe bai'r arolwg yn cael ei gynnal gan ddefnyddio'r data hwn. Pan edrychwn ar nifer yr etholwyr ar gyfer y ward hon (cymerwyd o gofrestri mis Mehefin 2018), mae 15% uwchlaw'r cyfartaledd sirol arfaethedig. Gallai'r Comisiwn ystyried bod gan y ward hon, ar ei phen ei hun, lefel amrywiant briodol, er yn ymylol. Os yw'r duedd yn y boblogaeth yn cyfateb yn nifer yr etholwyr cofrestredig, sef cynnydd o 1.3%, byddai lefel amrywiant briodol o hyd.

Scleddau (Sir Benfro)

3.8 Mae'r ward hon yn symud o -24.3%, gan -0.9%, i -25.2%. Byddai'r ward hon yn ymylol o ran ystyried ei hyfywedd parhaus. Fodd bynnag, mae'r ward hon yn debygol o newid yn yr arolwg etholiadol cyfredol o Sir Benfro. Mae'r ward wedi'i lleoli nesaf at Dinas Cross a Llanrhian. Pan edrychwn ar nifer yr etholwyr ar gyfer y wardiau hyn yn yr arolwg cyfredol, mae ward Dinas Cross 17% islaw'r cyfartaledd sirol arfaethedig, mae Llanrhian 22% islaw'r cyfartaledd sirol arfaethedig ac mae Scleddau 27% islaw'r cyfartaledd sirol arfaethedig. Os yw'r duedd yn y boblogaeth yn cyfateb yn nifer yr etholwyr cofrestredig, sef gostyngiad o 0.9%, byddai lefel amrywiant amhriodol o hyd. Drwy newid y trefniadau wardio ar gyfer yr ardal hon, fel y cynigiodd y Comisiwn yn ei Gynigion Drafft, mae gan y tair ward newydd lefelau amrywiant gryn dipyn yn well ar -1%, -9% a 5 o etholwyr o'r cyfartaledd sirol arfaethedig.

Trefddyn (Torfaen)

3.9 Mae'r ward hon yn symud hefyd o -25.3%, gan -0.9%, i -24.4%. Byddai'r ward hon yn un ymylol o ran ystyried ei hyfywedd parhaus. Fodd bynnag, mae'r ward hon yn debygol o newid yn yr arolwg etholiadol cyfredol o Dorfaen. Mae'r ward wedi'i lleoli nesaf at St. Cadocs a Phenygarn. Pan edrychwn ar nifer yr etholwyr ar gyfer y wardiau hyn yn yr arolwg sydd wedi'i gwblhau, mae ward St. Cadocs a Phenygarn 25% islaw'r cyfartaledd sirol arfaethedig ac mae Trefddyn 29% islaw'r cyfartaledd sirol arfaethedig. Os yw'r duedd yn y boblogaeth yn cyfateb yn nifer yr etholwyr cofrestredig, sef cynnydd o 0.9%, byddai lefel amrywiant amhriodol o hyd. Drwy newid y trefniadau wardio ar gyfer yr ardal hon, fel y mae'r Comisiwn wedi argymhell, mae gan y ward newydd (sy'n cwmpasu Cymuned Trefddyn gyfan) lefel amrywiant gryn dipyn yn well ar 9% o'r cyfartaledd sirol arfaethedig.

- 3.10 Fel y gellir gweld o'r dadansoddiad uchod, mae'r saith o wardiau yr effeithir arnynt gan gyflwyno'r rhai 16 ac 17 oed at yr etholwyr, yn ddibwys ac ni fyddent yn effeithio ar gynigion y Comisiwn nac arolygon cyfredol.

Asesiad o'r Effaith Gyffredinol – Rhaglen Arolygon Etholiadol Bresennol

- 3.11 Mae'r Comisiwn yn fodlon, yn dilyn y dadansoddiad y mae wedi'i gynnal o'r data sydd ar gael iddo, y byddai effaith cyflwyno'r rhai 16 ac 17 oed at y cofrestri yn ddibwys. Mae'r darlun cyffredinol yn dangos bod yna ddarlun cyson iawn ledled Cymru gyda gwyriad o lai nag 1% ar gyfartaledd o nifer bresennol yr etholwyr cymwys. Yn ogystal, wrth ystyried wardiau unigol, mae'r effaith yn ddibwys hefyd. Mae'r ffordd y mae'r Comisiwn yn cynnal arolygon a dosbarthiad presennol yr etholwyr ar draws y prif ardaloedd yn arwain at 0.82% o wardiau yn cael eu heffeithio'n sylweddol o bosibl. Fel y gellir gweld o'r uchod, nid yw'r saith ward hyn hyd yn oed, oherwydd eu hamgylchiadau penodol a dyletswydd statudol y Comisiwn i wella cydraddoldeb etholiadol, yn achosi pryder i'r Comisiwn o ran y penderfyniadau a wnaed hyd yma.
- 3.12 Barn y Comisiwn felly yw na ddylai fod unrhyw effaith ar y rhaglen arolygon bresennol gan yr estyniad arfaethedig i'r etholfraint, a dylid cwblhau'r arolygon yn unol â'i bolisiau a'i weithdrefnau cyfredol, a Deddf 2013.

Asesiad Effaith Cychwynnol – Rhaglen Arolygon Etholiadol 2023

- 3.13 Rhagwelir, erbyn dechrau'r arolwg cyntaf o Raglen 2023, y bydd yr estyniad i'r etholfraint wedi dod yn gyfraith, ac y bydd un etholiad llywodraeth leol wedi'i chynnal ar y sail honno. Bydd y 22 Prif Gyngor wedi diweddarau'u cofrestri a'u gweithdrefnau, a bydd rhaglen o addysgu darpar etholwyr yn mynd rhagddi ledled ysgolion yng Nghymru.
- 3.14 A chymryd bod y rhagdybiaethau sylfaenol hyn yn gywir, nid yw'r Comisiwn yn cynnig unrhyw newid sylfaenol i'r ffordd y byddai'n cynnal arolygon o ganlyniad i ymestyn yr etholfraint. Barn y Comisiwn yw y bydd y rhai 16 ac 17 oed yn cael eu cynnwys yn y cofrestri ar ddechrau arolwg, ac y bydd y rheiny a allai fod yn gymwys i bleidleisio yn cael eu cynnwys mewn cyfrifiadau cyngor ar gyfer ei amcanestyniadau pum mlynedd.
- 3.15 Bydd y Comisiwn, yn ystod ei gyfarfodydd cyn dechrau'r arolygon, yn sicrhau y caiff y cynghorau eu hatgoffa o'u cyfrifoldebau i sicrhau bod ymagwedd gyson at arolygon ledled Cymru.
- 3.16 Cyn dechrau'r rhaglen nesaf o arolygon, bydd y Comisiwn yn drafftio ac ymgynghori ar ddogfen polisi ac arfer newydd, gan gynnwys polisi ar faint cynghorau. Bydd y Comisiwn yn cynnal dadansoddiad pellach o effaith yr estyniad i'r etholfraint cyn y cyhoeddiad hwnnw, pan fydd y data llawn a chywir ar gael. Gall y Comisiwn, bryd hynny, gynnwys unrhyw newidiadau yn ei ddogfen polisi ac arfer. Os gwnaed unrhyw newidiadau sylweddol o ganlyniad i'r estyniad i'r etholfraint, caiff y rhain eu hystyried wrth drefnu'r rhaglen arolygon nesaf. Mae hyn yn digwydd yn barod lle ceir mwy o gynnydd neu lai o gynnydd yn nifer yr etholwyr nag yr oedd yr amcanestyniadau 5 mlynedd wedi rhagweld yn y rhaglen hon. Lle dangosir y rhain yn yr amrywiannau wardiau o fewn cynghorau, mae'r ardaloedd cyngor yr effeithir arnynt yn debygol o gael eu hadolygu'n gynharach yn y rhaglen.

ATODIAD 1 – RHESTR TERMAU

Comisiwn	Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.
Cyfarwyddiadau	Cyfarwyddiadau a roddir gan Weinidogion Cymru o dan Adran 48 y Ddeddf.
Wardiau etholiadol	Yr ardaloedd y caiff prif gynghorau eu rhannu iddynt at ddiben ethol cynghorwyr sir, y cyfeiriwyd atynt gynt fel adrannau etholiadol.
Arolwg etholiadol	Arolwg lle mae'r Comisiwn yn ystyried y trefniadau etholiadol ar gyfer prif gyngor.
Etholaeth	Nifer y bobl sydd wedi'u cofrestru i bleidleisio mewn ardal llywodraeth leol.
Gorchymyn	Gorchymyn a wneir gan gorff gweithredu sy'n rhoi cynigion a wneir gan y prif gyngor neu'r Comisiwn ar waith.
Poblogaeth sy'n Gymwys i Bleidleisio	Nifer y bobl a allai fod yn gymwys i bleidleisio a bennir yn ôl grŵp oedran. Yn y ddogfen hon, gall hyn olygu'r rhai sy'n 18 oed a hŷn, neu'r rhai sy'n 16 oed a hŷn.
Prif ardal	Yr ardal a lywodraethir gan brif gyngor yng Nghymru: sir neu fwrdeistref sirol
Prif gyngor	Corff llywodraeth leol un haen sy'n gyfrifol am bob un, neu bron bob un, o'r swyddogaethau llywodraeth leol yn ei ardal. Cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol.
Gwriad Safonol	Mesur a ddefnyddir i feintioli maint gwriad neu wasgariad set o werthoedd data. Mae gwriad safonol isel yn dynodi bod y pwyntiau data yn tueddu bod yn agos at gymedr (cyfartalog) y set, tra bod gwriad safonol uchel yn dynodi bod y pwyntiau data wedi'u gwasgaru dros ystod ehangach o werthoedd.
Y Ddeddf	Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013

Alun Davies AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a
Gwasanaethau Cyhoeddus
Cabinet Secretary for Local Government and Public
Services



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA(P)/ARD/1386/18

Owen Watkin
Cadeirydd, Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru
Tŷ Hastings
Llys Fitzalan
Caerdydd
CF42 0BL

26 Medi 2018

Llythyr Cylch Gwaith 2018/19 - Diwygiedig

Ysgrifennais atoch ar 10 Mai 2018 yn amlinellu'r amcanion ar gyfer y Comisiwn yn 2018/19. Bryd hynny, roedd Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ar dri opsiwn ar gyfer diwygio, a amlinellwyd yn y Papur Gwyrdd 'Cryfhau Llywodraeth Leol: Cyflawni dros Ein Pobl', a dywedais y gallai fod angen diwygio'r amcanion.

Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 12 Mehefin ac mae'r goblygiadau ar gyfer gwaith y Comisiwn ar gyfer eleni yn glir erbyn hyn, gan fod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen ag uno cynhwysfawr a amlinellwyd yn y Papur Gwyrdd ar hyn o bryd. Mae hyn ar y sail bod llywodraeth leol yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i gyflawni diwygio.

Fodd bynnag, mae angen i raglen waith bresennol y Comisiwn felly roi ystyriaeth o hyd i'r elfennau diwygio llywodraeth leol sy'n berthnasol i waith y Comisiwn, fel y diwygiadau etholiadol. Yn benodol, fel yr amlinellwyd yn y Papur Gwyn ym mis Mehefin 2017 ac yn y Datganiad Llafar a wneuthum i'r Sesiwn Lawn ym mis Ionawr 2018, bwriad Llywodraeth Cymru yw ymestyn yr etholfraint i'r rhain 16/17 oed a'r holl wladolion tramor ar gyfer etholiadau llywodraeth leol 2022. Rwyf yn disgwyl i'r Comisiwn ystyried goblygiadau hyn fel rhan o'i arolygon etholiadol.

Mae'r amcanion ar gyfer y Comisiwn, felly, yn parhau fel a ganlyn:

- Parhau â'r rhaglen o arolygon etholiadol gyda'r nod o gwblhau pob un o'r 22 o arolygon yn unol â'r amserlen a gyhoeddwyd;

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Alun.Davies@llyw.cymru
Correspondence.Alun.Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding

ATODIAD 2

- Sicrhau fod pob agwedd o'r arolygon yn cael ei gwirio;
- Dwyn y prosiect yn ei flaen ar gyfer darpariaeth TGCh newydd ar y cyd â Chymwysterau Cymru;

Ac, yn ogystal:

Rhoi dadansoddiad i mi o effeithiau'r estyniad i'r etholfraint, fel y disgrifiwyd uchod, ac ystyriaeth o effaith bosibl y cyfryw estyniad ar arolygon etholiadol, ac o'r camau gweithredu, os ystyrir eu bod yn angenrheidiol, a gymerir gan y Comisiwn ar ôl ei hystyried.

Mae cyllideb y Comisiwn yn aros yr un fath.

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Alun', enclosed in a thin black rectangular border. Below the signature is a horizontal line.

Alun Davies AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus
Cabinet Secretary for Local Government and Public Services